PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

GWRANDAWIAD CADARNHAU – 4 HYDREF 2013

PENODIAD ARFAETHEDIG DIRPRWY GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD DROS DRO GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Llunnir yr adroddiad hwn yn unol â Pharagraff 10, Atodlen 1 (yr Atodlen) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Penodiad arfaethedig Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dros Dro gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Cynhaliodd y Panel wrandawiad cadarnhau yn unol â Pharagraffau 10 ac 11 yr Atodlen, fel rhan o raglen cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Venue Cymru, Llandudno, ddydd Gwener, 4 Hydref 2013.

Ystyriodd y Panel lythyr gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn enwebu Mr. Julian Sandham i swydd y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd dros dro.

Yn unol â Pharagraff 11 yr Atodlen, roedd yr ymgeisydd bwriedig yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn ateb cwestiynau yn ymwneud â'r penodiad.

Adolygodd y Panel y penodiad arfaethedig a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y Comisiynydd i bennu ei enwebiad ar gyfer y swydd hon.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod gan Mr Sandham dros 30 mlynedd o brofiad yn yr heddlu a roeddent yn fodlon hefyd bod yr ymgeisydd yn deall annibyniaeth y swydd.

Argymhellion

(a) Penodi Mr. Julian Sandham fel y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd dros dro.

(b) Rhoi adborth i'r Panel ynglŷn â sut y mae'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd wedi helpu'r Comisiynydd gyda'i ddyletswyddau statudol a'i addewidion etholiad.

(c) Mae'r Panel yn disgwyl cael gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r unigolyn a enwebwyd i swydd barhaol y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd, cyn y Gwrandawiad Cadarnhau.

Hydref 2013

</LAYOUT_SECTION>